OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 44

# Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020

## RHAN 3

Cymorth a chydweithrediad o dan Deitl IV ac adennill treuliau

**Dyletswyddau awdurdodau dynodedig**

**8.** Rhaid i awdurdod dynodedig hysbysu Gweinidogion Cymru os yw'n ystyried nad yw'n gallu cymryd camau sy'n ofynnol mewn unrhyw achos unigol o dan Deitl IV (cymorth gweinyddol a chydweithrediad) a rhaid iddo ddarparu unrhyw wybodaeth y gwneir cais rhesymol amdani i Weinidogion Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 8 mewn grym ar 31.1.2020, gweler **rhl. 1(2)**

**Hwyluso cymorth a chydweithrediad**

**9.**—(1) At ddibenion cynorthwyo awdurdod cymwys o Aelod-wladwriaeth arall fel a ddarperir yn Erthygl 104, neu alluogi Gweinidogion Cymru neu awdurdod dynodedig i wneud hynny, caiff arolygydd sy'n arfer pwerau o dan ddeddfwriaeth berthnasol i fynd i fangre neu i arolygu cofnodion—

(a) mynd â swyddogion awdurdodedig awdurdod cymwys gwlad arall gydag ef,

(b) dangos cofnodion i'r swyddogion awdurdodedig hynny sy'n mynd gydag ef, ac

(c) gwneud copïau o'r cofnodion ar eu cyfer, neu ei gwneud yn ofynnol i gopïau o'r cofnodion gael eu gwneud ar eu cyfer.

(2) At ddibenion hwyluso ymweliad gan dîm arolygu fel a ddarperir yn Erthygl 108, caiff arolygydd fynd â chynrychiolwyr o Gomisiwn yr UE gydag ef wrth arfer pwerau o dan ddeddfwriaeth berthnasol i fynd i fangre ac arolygu cofnodion.

(3) Caniateir ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddarparu i swyddog gorfodi unrhyw gymorth, unrhyw wybodaeth neu unrhyw gyfleusterau sy'n rhesymol ofynnol gan y swyddog at ddiben gweithredu neu orfodi'r Rheoliadau hyn neu Reoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 9 mewn grym ar 31.1.2020, gweler **rhl. 1(2)**

**Adennill treuliau**

**10.**—(1) Caniateir codi unrhyw dreuliau y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod dynodedig yn mynd iddynt wrth gyflawni gweithgareddau gorfodi o dan y Rheoliadau hyn, neu fesurau o dan Erthygl 66, 67, 69 neu 138 ar y gweithredwr busnes perthnasol a rhaid talu'r treuliau hynny pan gyflwynir archiad ysgrifenedig amdanynt.

(2) Caniateir adennill unrhyw swm sy'n ddyledus o dan y Rheoliadau hyn ac nad yw wedi ei dalu—

(a) fel dyled sifil;

(b) o dan orchymyn llys, yn unol ag unrhyw delerau y mae'r llys yn eu gorchymyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 10 mewn grym ar 31.1.2020, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/01/2020.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020, RHAN 3.